

# Rydym yn recriwtio

## Rheolwr Cynorthwyol

www.thefunctionhub.com @thefunctionhub



WWW.THEFUNCTIONHUB.COM

Teitl y swydd → 

# RHEOLWR CYNORTHWYOL

CYFLOG: £28,500 – £31,000 I DDECHRAU,
GYDA PHOTENSIAL I DDATBLYGU YMHELLACH.

Mae The Function Hub yn tyfu, ac rydym yn chwilio am Reolwr Cynorthwyol deinamig i ymuno â'n tîm! Mae'r rôl hon yn bennaf yn gweithio o gartref, ond byddwch yn mynychu digwyddiadau lleol yn rheolaidd ac yn cynrychioli TFH mewn cyfarfodydd â chwsmeriaid ledled Gogledd Cymru.

Fel rhan allweddol o'n gweithrediadau dydd i ddydd, rydym yn chwilio am unigolyn rhagweithiol, trefnus a chreadigol sy'n mwynhau rheoli logisteg, cydlynu ag artistiaid, ac ymestyn datblygiad busnes. Os ydych chi'n ffynnu mewn amgylchedd cyflym, gall hyn fod yn gyfle perffaith i chi!

# AMDANOM NI

Yn The Function Hub, rydym yn creu profiadau cerddoriaeth fyw bythgofiadwy ar gyfer priodasau, partïon a digwyddiadau ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt. P'un ai'n unawdwyr, bandiau egniol neu DJ's, rydym yn cynrychioli rhestr o artistiaid talentog sydd wedi'u dewis yn ofalus i greu'r naws berffaith ar gyfer unrhyw achlysur.

Rydym yn cael ein gyrru gan ansawdd, creadigrwydd a chariad at berfformio byw, gan sicrhau bod pob digwyddiad yn brofiad cofiadwy. Gyda dull proffesiynol a chyfeillgar a chariad dwfn at gerddoriaeth, rydym yn falch o baru'r sain gywir i bob eiliad.

# PRIF GYFRIFOLDEBAU →

**Gweithrediadau ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid**

- Gweithio fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau gan gwsmeriaid a busnesau.
- Cynorthwyo gyda pharatoi contractau, anfonebau a chadarnhad archebion.
- Adnabod a dilyn cyfleoedd busnes newydd.
- Cydweithio ag artistiaid i drefnu manylion digwyddiadau.
- Canfod talent leol a lleoliadau newydd i gryfhau rhestr TFH a'n presenoldeb brand.
- Cynrychioli TFH mewn ymweliadau safle a chyfarfodydd cynllunio, gan adeiladu perthnasoedd cryf â chwsmeriaid a chyflenwyr.
- Meithrin cysylltiadau â lleoliadau, trefnwyr digwyddiadau a chleientiaid posib.
- Cefnogi cyflawni digwyddiadau ac ymgysylltu â chwsmeriaid, gan gynnwys rhywfaint o waith gyda'r nos neu ar benwythnosau.
- Cydlynu logisteg offer a rheoli storfa TFH.

# MARCHNATA A CHREU CYNNWYS →

- Cryfhau presenoldeb lleol TFH drwy rwydweithio a mynychu digwyddiadau (e.e. ffairiau priodas, sioeau diwydiant).
- Dod a syniadau ffres i gefnogi twf y busnes a chwilio am gyfleoedd newydd.
- Cydlynu a datblygu cynnwys gwreiddiol yn y Gymraeg a Saesneg.
- Cynorthwyo gyda reoli calendr marchnata TFH ar draws llwyfannau cymdeithasol.
- Cydweithio ar ymgyrchoedd a mynychu digwyddiadau i gipio cynnwys amser real.

# AMDANO CHI →

**Hanfodol**

- Wedi'ch lleoli yng Ngogledd Cymru, gyda hyblygrwydd i deithio'n lleol pan fo angen.
- Trwydded yrru lawn y DU.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol (ysgrifenedig a llafar) yn Gymraeg a Saesneg.
- Trefnus iawn, hunangyfeiriedig, ac yn gallu rheoli amser yn annibynnol.
- Meddylfryd creadigol gyda llygad am greu cynnwys.
- Parodrwydd i fynychu digwyddiadau gyda'r nos neu ar benwythnosau.
- Gwybodaeth dda o'r diwydiant cerddoriaeth fyw a digwyddiadau, gyda dealltwriaeth o'r hyn sy'n ymwneud â chynllunio a chyflwyno perfformiadau llwyddiannus.

# AMDANO CHI →

**Dymunol**

- Cefndir mewn gweinyddiaeth, digwyddiadau, marchnata neu greu cynnwys.
- Gwybodaeth am y diwydiant creadigol, priodasau, neu adloniant.
- Sgiliau sylfaenol mewn dylunio, ffotograffiaeth neu olygu fideo.
- Brwdfrydedd dros gadw i fyny â thueddiadau diwydiant.

# GWYBODAETH YCHWANEGOL

Mae dod o hyd i'r person cywir ar gyfer y rôl hon yn hollbwysig i'n datblygiad yn y dyfodol. Os oes gennych ddiddordeb ond ddim yn hollol siŵr a yw'ch profiad yn ffit perffaith, byddem yn falch iawn o glywed gennych. Croeso i chi gysylltu am sgwrs anffurfiol am y rôl, y tîm, neu'r cyfleoedd i dyfu gyda ni.

Daw'r rôl hon gyda chefnogaeth weinyddol barhaus a chydweithio agos gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr. Rydym yn gweithio fel tîm, ac mae cymorth a chanllaw bob amser ar gael pan fydd ei angen.

Dydyn ni ddim yn disgwyl i chi wybod popeth o'r diwrnod cyntaf. Byddwn yn darparu hyfforddiant cefnogol i'ch helpu i ddatblygu hyder ym mhob agwedd ar y rôl. Os ydych chi'n dod â'r agwedd gywir, creadigrwydd, a pharodrwydd i ddysgu, byddwn ni'n eich helpu i ddatblygu'r gweddill.



WWW.THEFUNCTIONHUB.COM

Gwneud Cais →

# ANFONWCH EICH CV

OS YW'R RÔL HON YN APELIO ATOCH, BYDDEM WRTH EIN BODD YN CLYWED GENNYCH.

Anfonwch eich CV ynghyd â thri pharagraff byr yn egluro:

- Pam mae'r rôl hon o ddiddordeb i chi
- Unrhyw brofiad sydd gennych o adeiladu perthnasoedd gyda chleientiaid, lleoliadau neu bartneriaid
- Pam rydych yn teimlo y byddech yn addas ar gyfer The Function Hub

Anfonwch eich cais at: gwion@thefunctionhub.com
Pwnc yr e-bost: Cais – Rheolwr Cynorthwyol

**Dyddiad cau ceisiadau:** 10:00yb, dydd Mercher 18 Mawrth.